Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Live Fear Free Helpline
**0808 80 10 800**
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

Addysgu, Atal, Dileu...
Educate, Prevent, Eradicate...

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Taflen Ffeithiau
## Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

## Beth yw anffurfio organau cenhedlu benywod?

**Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio anffurfio organau cenhedlu benywod fel:**

"Unrhyw weithdrefn sy'n cynnwys tynnu'r genitalia benywaidd allanol yn rhannol neu'n llwyr neu anaf arall i organau cenhedlu benywod am resymau nad ydynt yn rhai meddygol".

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn drosedd yn erbyn hawliau ac urddas menywod a merched ac mae'n anghyfreithlon waeth beth fo oedran y fenyw.

## Grwpiau sydd mewn perygl

Fel arfer, mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn digwydd i ferched rhwng babandod a 15 oed, ond gellir ei wneud hefyd i ferched hŷn.

Mae dros 125 miliwn o ferched a menywod sy'n fyw heddiw ledled y byd wedi'u torri; ac yn y DU amcangyfrifir bod dros 130,000 o fenywod wedi'u hanffurfio fel hyn.

**Ymhlith cymunedau'r DU sydd fwyaf tebygol o anffurfio organau cenhedlu benywod mae cymunedau o:**

Kenya, Somalia, Swdan, Sierra Leone, yr Aifft, Nigeria ac Eritrea.

**Ymhlith y cymunedau nad ydynt yn Affricanaidd sy'n gwneud hyn mae cymunedau o:**

Yemen, Affganistan, ardaloedd Cwrdaidd, Indonesia a Phacistan.

## Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn anghyfreithlon yn y DU

Yng Nghymru a Lloegr (a Gogledd Iwerddon), mae deddfwriaeth droseddol a sifil ar anffurfio organau cenhedlu benywod wedi'i chynnwys yn Neddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 **(www.legislation.gov.uk/cy)**

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn ffurf ar gam-drin plant ac mae'n achosi niwed sylweddol. Mae hefyd yn drosedd o ran hawliau dynol.

**Mae Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 yn ei gwneud yn anghyfreithlon:**

- anffurfio organau cenhedlu benywod yn y DU;
- mynd â merched sy'n wladolion Prydeinig neu'n drigolion arferol yn y DU dramor ar gyfer anffurfio organau cenhedlu (p'un a yw'n gyfreithlon yn y wlad honno ai peidio); a
- helpu, annog neu gwnsela rhywrai i anffurfio organau cenhedlu benywod dramor, neu beri iddynt wneud hynny.

**GALL Y TROSEDDAU HYN ARWAIN AT DDEDFRYDAU CARCHAR O HYD AT 14 MLYNEDD**

## Mathau o anffurfio organau cenhedlu benywod

**Math 1:**

Tynnu'r clitoris a/neu'r blaengroen (clitoridectomi) yn rhannol neu'n llwyr

**Math 2:**

Tynnu'r clitoris a'r labia minora yn rhannol neu'n llwyr, gan dorri allan neu beidio â thorri allan y labia majora

**Math 3:**

Culhau'r twll gweiniol gan greu sêl drwy dorri a thynnu ynghyd (gwnïo) y labia minora a/neu'r labia majora, gan dorri allan neu beidio â thorri allan y clitoris

**Math 4:**

Pob math arall o arferion niweidiol traddodiadol sy'n anffurfio genitalia'r fenyw, gan gynnwys pricio, torri, tyllu, endorri, crafu a serio.

**Goblygiadau iechyd:**

| Goblygiadau iechyd tymor byr | Goblygiadau iechyd hirdymor |
|---|---|
| • marwolaeth<br>• poen a sioc ddifrifol<br>• torri braich neu goes yn sgil cael eu dal i lawr<br>• anaf i feinweoedd cyfagos<br>• cadw wrin yn y corff<br>• mwy o berygl o HIV ac AIDS | • heintiau'r groth, y wain a'r pelfis<br>• systiau a niwromâu<br>• anffrwythlondeb<br>• risg uwch o ffistwla<br>• cymhlethdodau wrth eni plentyn<br>• iselder ac iselder ar ôl geni plentyn<br>• problemau seicorywiol<br>• cymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd ac wrth eni plentyn<br>• problemau rhywiol. |

## Arwyddion i wylio amdanynt os yw merch ifanc mewn perygl neu os yw eisoes wedi bod drwy'r broses anffurfio organau cenhedlu

Fel arfer, rhieni merch neu ei theulu estynedig sy'n gyfrifol am drefnu i anffurfio organau cenhedlu. Rhai o'r rhesymau a roddwyd dros barhau â'r arfer yw: diogelu anrhydedd teuluol, cadw traddodiad, sicrhau gwyryfdod/ffyddlondeb menyw, glendid, a pharatoad ar gyfer priodas.

**Mae'r derminoleg ar gyfer cyfeirio at anffurfio organau cenhedlu benywod yn amrywio rhwng cymunedau. Cyfeirir at:**

- Enwaedu benywod
- Torri
- Bondo
- Sunna
- Dechrau bywyd fel menyw.

## Arwyddion y gallai merch fod mewn perygl neu berygl uniongyrchol o’r broses anffurfio organau cenhedlu

- Daw merch o gymuned ethnig lle mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn arfer ac mae’r teulu’n gwneud paratoadau iddi gymryd gwyliau, yn trefnu brechiadau neu’n cynllunio ar gyfer absenoldeb o’r ysgol
- Mae merch yn rhannu â chi ei bod am fynd drwy ‘broses arbennig’ neu fynd i achlysur arbennig i ‘ddod yn fenyw’
- Cyfeiriadau at anffurfio organau cenhedlu benywod mewn sgwrs, ee rhwng merch a’i ffrindiau
- Mae merch yn rhannu â chi ei bod yn ofni y bydd yn gorfod mynd drwy’r broses anffurfio organau cenhedlu, neu fod ei mam a/neu ei chwaer h□n wedi mynd drwy’r broses
- Mae rhieni merch yn dweud eu bod nhw neu berthynas iddynt am fynd â hi allan o’r wlad am gyfnod hir a/neu y bydd y ferch yn cael ei haddysgu gartref ar ôl dychwelyd
- Mae rhiant neu aelod o’r teulu yn mynegi pryder bod aelod arall o’r teulu yn mynd i drefnu proses anffurfio organau cenhedlu ar gyfer y ferch golygu bod merch iP
- Mae aelod benywaidd h□n o’r teulu yn bresennol, yn enwedig pan fydd yn ymweld o wlad wreiddiol y teulu, ac yn cymryd rôl fwy amlwg / dylanwadol o fewn y teulu
- Mae merch yn gofyn am gymorth gan athro neu oedolyn arall am ei bod yn ymwybodol neu’n amau ei bod mewn perygl uniongyrchol
- Mae merch yn siarad am wyliau hir i’w gwlad wreiddiol neu i wlad arall lle mae’r arfer yn gyffredin
- Mae merch yn cael ei chymryd dramor i wlad lle mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn gyffredin, yn enwedig yn ystod gwyliau’r haf a elwir yn ‘dymor torri’.

## Arwyddion y gallai merch fod wedi mynd drwy’r broses anffurfio organau cenhedlu eisoes

Ymhlith yr arwyddion y gallai’r broses anffurfio organau cenhedlu benywod fod eisoes wedi digwydd mae absenoldeb hir o’r ysgol neu o weithgareddau eraill, a bod newid amlwg yn ymddygiad y ferch ar ôl dychwelyd, gyda phroblemau o ran y bledren neu fislif o bosibl.

Mae rhai athrawon wedi disgrifio sut mae merched yn ei chael hi’n anodd eistedd yn llonydd, edrych yn anghyfforddus, cwyno am boen rhwng eu coesau, neu sôn am rywbeth a wnaeth rhywun iddynt nad ydynt yn cael siarad amdano.

Mae’n rhaid i weithwyr proffesiynol a reoleiddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac athrawon yng Nghymru a Lloegr roi gwybod i’r heddlu am achosion ‘hysbys’* o anffurfio organau cenhedlu benywod ymhlith merched o dan 18 oed.

**DAETH Y DDYLETSWYDD I RYM AR 31 HYDREF 2015.**

**’Ystyrir bod achos yn ‘hysbys’ pan fydd merch yn datgelu ei bod wedi bod drwy’r broses anffurfio organau cenhedlu, neu pan sylwir ar arwyddion corfforol ar ferch sy’n awgrymu bod hyn wedi digwydd iddi.*

## Sut i ymateb i bryderon am ddiogelwch plant sydd mewn perygl o'r broses anffurfio organau cenhedlu benywod

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn ffurf ar gam-drin plant; nodir hyn mewn canllaw ymarfer i Gymru gyfan sy'n cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac yng nghanllawiau statudol Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

Os oes gennych unrhyw bryderon bod plentyn mewn perygl o'r broses anffurfio organau cenhedlu benywod, cysylltwch â Swyddog Diogelu Dynodedig yr ysgol neu'r lleoliad.

Bydd y Swyddog yn cynnig cyngor ac yn gwneud unrhyw atgyfeiriadau i'r gwasanaethau i blant. Gwnewch hyn ar unwaith gan fod gweithredu'n gyflym yn hanfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio'r canllawiau anstatudol hyn i atgoffa ymarferwyr sy'n gweithio ar draws asiantaethau o'u cyfrifoldebau i ddiogelu plant, ac i'w cefnogi i ymateb i bryderon ynghylch plant sy'n wynebu risg.

Maent yn cynnwys gwybodaeth am roi gwybod am bryderon a thrin datgeliadau gan blant a phobl ifanc.

**https://llyw.cymru/cadw-plant-phobl-ifanc-yn-ddiogel-canllaw-anstatudol-i-ymarferwyr**

**OS OES RHYWUN MEWN PERYGL UNIONGYRCHOL O FYND DRWY'R BROSES ANFFURFIO ORGANAU CENHEDLU BENYWOD, DYLECH GYSYLLTU Â'R HEDDLU AR 999 AR UNWAITH.**

**Gofalwch fod y plentyn yn gwybod y gall siarad â llinell gymorth yr NSPCC**

## Gallwch gael help a chefnogaeth yn ddienw gan:

Llinell Gymorth Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yr NSPCC
ar: 0800 028 3550 neu drwy e-bost: fgmhelp@nspcc.org.uk

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn ar: 0808 80 10 800
neu drwy e-bost: info@livefearfreehelpline.wales

Llinell Gymorth BAWSO ar: 0800 731 8147

I gael rhagor o wybodaeth am Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, ewch i:
**www.gov.uk/female-genital-mutilation-help-advice**

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41170